

# Plas Glyn-y-Weddw

## Nod Llesiant

## Ffyrdd o weithio

Plas Glyn-y-Weddw yw un o orielau celf hynaf Cymru, cafodd ei adeiladu ym 1857, ac mae wedi'i amgylchynu gan goetiroedd hynafol y Winllan, sydd wedi'u lleoli ar Benrhyn Llŷn ac sy'n rhan o Lwybr Arfordir Cymru.

Adeiladwyd Plas Glyn-y-Weddw fel preswylfa breifat ar ffurf gothig ac fe'i gwerthwyd sawl gwaith dros y blynyddoedd am nifer o resymau, cyn cael ei adfer a'i ail-agor fel oriel gelf yn 1979. Ffurfiwyd ymddiriedolaeth elusennol yng nghanol y 1990au i brynu'r adeilad a chymryd drosodd y gwaith o redeg yr oriel. Heddiw, mae Plas Glyn-y-Weddw yn cael ei ystyried yn llawer mwy nag oriel gelf, mae'n ganolfan gelfyddydau a threftadaeth o bwysigrwydd cenedlaethol.

Yn wreiddiol, roedd coetir y Winllan yn rhan o'r gerddi ond cafodd ei adael allan o werthiannau dilynol. Fodd bynnag, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i brynu'r coetir yn ôl yn 2008 a mynd ati i adfer y safle. Mae'r Winllan wedi'i ddynodi'n goetir hynafol ond cafodd llawer o'r coed gwreiddiol eu disodli gan goed llarwydd, a chafodd llawryf a rhododendron eu plannu drwy'r coed. Fe wnaeth y rhywogaethau goresgynnol hyn feddiannu'r safle, ac roedden nhw'n drech na llawer o'r planhigion brodorol a fyddai wedi helpu'r bywyd gwyllt lleol i ffynnu.

Ymgymerodd yr Ymddiriedolaeth â rhaglen waith i glirio'r llawryf a'r rhododendron er mwyn gwella iechyd ecolegol y coetir a pharatoi i adfer ei nodweddion hynafol.

Fel rhan o'n gwaith ar y cynllun Coetiroedd Cymunedol, a gafodd ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, roeddem ni'n gallu helpu'r Ymddiriedolaeth i barhau i wella'r coetiroedd.

Cysylltwyd y llwybrau â Llwybr Arfordir Cymru'n ddiweddar, gan ddarparu llwybr mwy hygyrch a diogel drwy dir yr oriel ac o amgylch y pentir. Defnyddiwyd y cyllid i adfer canllawiau ar hyd 1km o lwybrau yn yr ardaloedd mwy serth a rhoi graean i sefydlogi'r llwybrau. Cliriwyd coed marw, coed wedi'u heintio neu goed wedi cwympo o'r safle er mwyn sicrhau bod y safle'n ddiogel a galluogi adfywio'r coetir drwy blannu cymysgedd o rywogaethau brodorol, gan gynnwys: criafol, derw, bedw, draenen wen, ffawydd, llwyfen a chastanwydden.

> "Rydym ni'n ddiolchgar iawn am arian Cronfa Dreftadaeth y Loteri a chefnogaeth TrC. Mae'r coetir yn adnodd gwerthfawr ac mae'r grant hwn wedi ein galluogi i wneud gwaith na fyddem ni wedi gallu ei wneud fel arall"


Geiriau allweddol: Coetiroedd Cymunedol, prosiectau sy'n cael eu hariannu gan grantiau, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, rheoli ac adfer coetiroedd, mannau gwyrdd hygyrch, diwylliant Cymru, Llwybr Arfordir Cymru, ymgysylltu â'r gymuned, cenedlaethau'r dyfodol, partneriaethau, effaith gynaliadwy






Mae'r oriel yn denu dros 140,000 o ymwelwyr bob blwyddyn ac mae hefyd yn atyniad poblogaidd i bobl leol oherwydd y caffi newydd. Roedd yr arian nid yn unig yn gyfle i wneud gwaith gwella'r tir, ond hefyd yn gyfle ar gyfer gwirfoddoli ac ymgysylltu. Daeth nifer o bobl leol i'r digwyddiad cymunedol a gynhaliwyd i arddangos canlyniadau'r prosiect ac fe wnaethon nhw fynegi eu diolch am y buddsoddiad a'i effaith gadarnhaol ehangach ar fusnesau eraill yn yr ardal.







"Mae unrhyw fuddsoddiad ym myd natur o fudd i bawb, a gallai hyn hefyd helpu i gefnogi busnesau lleol drwy wella cysylltiadau ac annog cerdded hamdden."

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

PLAS GLYN-Y-WEDDW

Mewn Partneriaeth â
**Llywodraeth Cymru**
In Partnership with
**Welsh Government**

Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund